Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

Hydref 2024

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 1 Awst 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ('yr Ysgrifennydd Cabinet') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Ar 17 Medi 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad terfynol o 1 Tachwedd 2024 i gyflwyno adroddiad.

### Ein dull ni

**3.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024.

# 2. Y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

**4.** Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf 2024.

## Amcanion polisi

**5.** Mae amcanion polisi'r Bil, fel y'u hamlinellir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm, fel a ganlyn:

> *"dileu'r rhagdybiaeth o blaid gweithredu gwasanaethau masnachfraint i deithwyr gan y sector preifat yn Neddf Rheilffyrdd 1993 ('Deddf 1993'). Bydd hyn yn hwyluso ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â gweithrediadau trên o'r fath yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus pan fydd contractau masnachfraint presennol yn dod i ben."*

**6.** Fel y nodir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Diwygio darpariaethau penodol yn Neddf 1993 i ddileu'r rhagdybiaeth o blaid gweithredu gwasanaethau masnachfraint i deithwyr gan y sector preifat i hwyluso ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â gweithrediadau trên o'r fath yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus pan fydd contractau masnachfraint presennol yn dod i ben;

- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a/neu Weinidogion Cymru, fel yr awdurdodau masnachfreinio priodol, i sicrhau bod gwasanaethau teithwyr rheilffordd dynodedig yn cael eu darparu drwy gontractau â gweithredwyr y sector cyhoeddus ac i ddechrau'r broses bontio i weithrediad y sector cyhoeddus wrth i gontractau presennol gyrraedd eu dyddiad gorffen neu bwynt terfynu contract;

- Datgymhwyso'r gofyniad o dan reoliad 22 o Reoliadau Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth 2023/1369 ("Rheoliadau 2023") i roi o leiaf 12 mis o hysbysiad cyn dyfarnu contractau o'r fath i gwmnïau'r sector cyhoeddus;

- Dileu'r pŵer i ddyfarnu masnachfreintiau i weithredwyr y sector preifat drwy broses dendro gystadleuol a'r gofyniad i gyhoeddi datganiad ar sut y bydd y pŵer hwnnw'n cael ei arfer;

- Yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud dyfarniadau neu estyniadau byr pellach i weithredwyr presennol y sector preifat pan fo'n fodlon, bryd hynny, na fydd yn rhesymol ymarferol i ddarparu na sicrhau darpariaeth gwasanaethau rheilffordd i deithwyr drwy ddyfarnu contract i gwmni sector cyhoeddus.

# 3. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**7.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae angen caniatâd ar gyfer y pedwar cymal yn y Bil a'i Atodlen. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 15 i 24 o'r Memorandwm.

**8.** Mae Llywodraeth y DU yn rhannu barn Llywodraeth Cymru.

## Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad

**9.** Mae paragraffau 26 i 35 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**10.** Nodir yn y Memorandwm:

> *"mae'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU oherwydd, er bod gan y Bil effeithiau sylweddol ar faterion datganoledig, mae gwasanaethau rheilffordd yn fater a gedwir yn ôl na allai'r Senedd ddeddfu arno.*
>
> *Mae'r cymalau yn y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a fydd yn darparu parhad gyda darparwr presennol masnachfraint Cymru a'r Gororau, Rheilffyrdd TrC."*

**11.** Mae'n cloi gan nodi bod Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i ddarpariaethau'r Bil.

## Casgliadau'r Pwyllgor

Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

Rydym yn cytuno na allai Deddf gan y Senedd ddyblygu'r darpariaethau yn y Bil am resymau sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol.

Rydym wedi galw, ar sawl achlysur blaenorol, am roi lefel deg o gyllid i Gymru ar gyfer y rheilffyrdd. Nodwn fod y Memorandwm yn dweud nad yw'r Bil "yn cyflawni'r nod ehangach o fwy o ddatganoli gyda setliad cyllido teg".

Nodwn hefyd ei fod yn mynd ymlaen i ddweud: "Nodwyd ein blaenoriaethau ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd yng Nghymru eisoes i'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Drafnidiaeth."

Er nad yw'n fater i'r Bil hwn yn amlwg, byddwn yn parhau i adolygu cynnydd ar y mater hwn wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno ei chynigion a'i pholisïau ar gyfer diwygio rheilffyrdd yn y DU.

I gloi, nid yw'r Pwyllgor wedi dod o hyd i unrhyw reswm pam na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i ddarpariaethau'r Bil.